

---

# Hygyrchedd Canllawiau Rhaglenni Electronig

Adroddiad blynyddol am welliannau i hygyrchedd  
canllawiau rhaglenni electronig

---

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

Mae pobl sydd â namau gweledol yn gwyllo cymaint o deledu â phobl eraill ond maent yn wynebu anawsterau penodol wrth ddefnyddio canllawiau rhaglenni ar setiau teledu (sy'n cael eu galw'n ganllawiau rhaglen electronig neu 'EPG') i dod o hyd i raglenni a'u gwyllo.

Mae'r [Cod EPG](#) yn nodi disgwyliad Ofcom y dylai canllawiau rhaglenni electronig gynnwys nodweddion chwyddo testun, cyferbyniad uchel, hidlo neu amlygu rhaglenni hygyrch a swyddogaethau 'testun i leferydd' fel y gall pobl anabl eu defnyddio.

## Yr adroddiad yn gryno

Dyma ein pedwerydd adroddiad blynyddol ers y diwygiadau i'r Cod EPG yn 2018. Rydym wedi cydnabod yn flaenorol ei fod yn cymryd amser i weithredu'r newidiadau gofynnol. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl erbyn hyn y bydd darparwyr EPG wedi gweithredu'r nodweddion gofynnol neu fod ganddynt gynlluniau pendant i wneud hynny, pan fo'n ymarferol.

Rydym yn ddiolchgar i RNIB am sefydlu grŵp ffocws eleni sydd wedi galluogi ni i ymgysylltu â defnyddwyr y nodweddion hyn a deall yn well sut y maent yn gweithio'n ymarferol ar gyfer defnyddwyr ar draws ystod o ddyfeisiau a ddefnyddir i gyrchu'r EPG (e.e. setiau teledu cysylltiedig neu flychau pen set).

## Crynodeb o gynnydd

- Mae pob darparwr bellach yn cynnig sgriniau cyferbyniad uchel. Mae amlygu cynnwys hygyrch ar gael yn helaeth ond nid yw wedi cael ei weithredu eto gan YouView a STV.
- Dim ond Digital UK sy'n darparu hidlo ar gyfer cynnwys darlledu, nodwedd sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr â nam ar y golwg sy'n chwilio am raglenni â disgrifiadau sain.
- Bu rhywfaint o gynnydd wrth weithredu nodweddion testun i leferydd ('TTS'), sydd hefyd yn cael ei alw'n 'EPG siarad'. Mae Sky bellach yn darparu TTS ar draws yr holl flychau Sky Q ac mae Digital UK yn cynnig datrysiaid blaengar sy'n defnyddio EPG ar wahân a gyrchir trwy sianel 555 ar bron pob dyfais Freeview Play. Mae darparwyr eraill yn defnyddio swyddogaethau ar wahân systemau gweithredu symudol, rhai setiau teledu clyfar (Freesat) neu integreiddio â thaclau cymorth digidol megis Amazon Alexa (YouView), nad ydynt eto'n cynnig swyddogaethau sy'n gyfwerth â TTS.

## Dylai darparwyr EPG:

- gynnwys tystiolaeth fanylach yn eu hadroddiadau ar sut y maent wedi gwneud 'ymdrechion rhesymol' i roi'r nodweddion hygyrchedd gofynnol ar waith
- canolbwyntio ar weithredu swyddogaethau hidlo a TTS
- ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr

## Bydd Ofcom yn:

- parhau i ofyn i ddarparwyr EPG ddarparu gwybodaeth wirfoddol am fesurau ychwanegol y maent wedi'u cymryd i wella rhwyddineb mynediad ar draws eu rhyngwyneb i ddefnyddwyr
- cychwyn trafodaethau bord gron i hyrwyddo cydweithio a rhannu arfer gorau rhwng darparwyr EPG a rhyngddynt hwy a'u partneriaid gweithgynhyrchu.